

**CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR  
GAERFYRDDIN  
CYNLLUN GWEITHREDU YNGHYLCH Y DYLLUAN WEN**

**Cyflwyniad**

Mae tylluanod gwynion (*Tyto alba* – Barn Owl) o bosibl ymhlith yr adar tir mwyaf cosmopolitaidd ac maent yn byw mewn cynefinoedd addas ar y rhan fwyaf o dir y byd. Hoff gynefin tylluanod gwynion ym Mhrydain yw tir amaeth ac maent yn nythu mewn adeiladau tawel neu mewn tyllau mewn coed, ac yn hela mewn caeau agored ac o gwmpas closau ffermydd lle byddant yn bwydo mewn glaswelltir garw sydd ond wedi'i bori'n ysgafn a

© Welsh Wildlife Photography



lle mae digonedd o famaliaid bychain. Maent i'w cael yn bennaf mewn ardaloedd sy'n llai na 200 metr uwch lefel y môr ac nid ydynt i'w gweld rhyw lawer mewn ardaloedd coediog iawn. Credir bod y boblogaeth yn y DU wedi gostwng hyd at 50% ers yr 1960au ond gan ei bod yn rhywogaeth anodd iawn i'w chyfrif nid yw'r data'n ddibynadwy. Maent ar y rhestr Ambr o ran lefel y pryder cadwraethol yn y Deyrnas Unedig. Mae'n hysbys fod poblogaethau tylluanod gwynion yn amrywio'n fawr o ganlyniad i'r newidiadau cylchol ym mhoblogaethau mamaliaid bychain. Mae data rhagarweiniol o Atlas Adar 2007-2011 Ymddiriedolaeth Adareg Prydain yn awgrymu bod poblogaeth y DU wedi cynyddu mewn gwirionedd dros y degawd diwethaf. Un o'r pethau efallai sydd wedi helpu yw'r cynnydd yn nifer y safleoedd nythu artiffisial sy'n cael eu darparu ledled y DU gan roi mwy o safleoedd gwahanol i adar magu symud iddynt rhwng blynyddoedd. Credir mai ond tua 400 o barau magu sydd yng Nghymru.

Ni wyddom ar hyn o bryd beth yw maint y boblogaeth fagu yn Sir Gaerfyrddin ond mae'n debygol o fod wedi gostwng. Rhesymau dros y gostyngiad yn niferoedd y tylluanod gwynion yw colli safleoedd nythu trwy adnewyddu hen adeiladau fferm a'u troi'n breswylfeydd, a chwympo hen goed mewn gwrychoedd. Er hynny, un o'r prif resymau yw colli glaswelltir sydd wedi'i led-wella ac sy'n gyforiog o rywogaethau. Achos arall am y dirywiad yw'r lleihad ym mhoblogaethau mamaliaid bychain sy'n fwyd i'r dylluan, a thylluanod yn marw oherwydd gwenwyno eilaidd fel canlyniad i fwyta mamaliaid bychain sy'n cael eu rheoli gan wenwyn. Yng Nghymru, hoff fwyd tylluanod gwynion yw llygod pengrwn sy'n byw mewn glaswelltir garw gan gynnwys ar hyd ymylon ffyrdd. Fel canlyniad mae'r dylluan yn treulio llawer o amser yn hela yn yr amgylchedd peryglus hwn. Yn ôl Ymddiriedolaeth Tylluanod Gwynion, mae dros hanner y tylluanod gwynion sy'n marw yn cael eu lladd ar y ffordd. Ni ddylid gosod blychau nythu o fewn 1 cilometr i brif ffyrdd oni bai bod gwrychoedd neu linellau parhaus o goed yn eu sgrinio yn union ger wyneb y ffordd.

Mae Sir Gaerfyrddin yn ardal gadwraeth â blaenoriaeth ar gyfer tylluanod gwynion yng Nghymru.

Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn mynnu bod arolygon yn cael eu cynnal sy'n cyfrannu i'r gwaith o gynllunio/penderfynu ynghylch unrhyw gynllun/prosiect sydd â'r potensial o effeithio ar dylluanod gwynion fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol/polisi.

## **Datganiad gweledigaeth ac amcanion**

Nod y cynllun hwn o fewn Sir Gaerfyrddin yw helpu i sicrhau bod poblogaeth tylluanod gwynion yn dychwelyd i fod yn un dichonadwy. Bydd darparu safleoedd nythu, asesu'n ddigonol yr effeithiau posibl y caiff datblygu ar dylluanod gwynion ac annog cadw/creu cynefin hela addas i gyd yn cyfrannu i'r weledigaeth hon. Byddai unrhyw gamau gweithredu yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol:

**BO1** Cynnal a chynyddu poblogaeth tylluanod gwynion yn Sir Gaerfyrddin

**BO2** Casglu data ynghylch dosbarthiad a statws tylluanod gwynion yn Sir Gaerfyrddin

**BO3** Rhoi arweiniad ynghylch gofynion tylluanod gwynion o ran cynefin a nythu

**Crynodeb o'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – [Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk](mailto:Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk)) neu ewch i wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth - <http://ukbars.defra.gov.uk>:**

### **2010–12**

- Gosod blychau i dylluanod gwynion – gwnaed a gosodwyd 30 o flychau yn y sir – Cyngor Sir Caerfyrddin/Tywi Afon yr Oesoedd BO1
- Cardiau post am dylluanod gwynion - hybu cyflwyno cofnodion – cafodd dros 70 eu cofnodi – Cyngor Sir Caerfyrddin BO2
- Cynhaliwyd arolygon ar gyfer pob cais cynllunio perthnasol – Cyngor Sir Caerfyrddin BO4

### **2013**

- Blychau wedi eu gosod fel rhan o gynllun Tirwedd a Bioamrywiaeth y Cynllun Datblygu Gwledig – Cyngor Sir Caerfyrddin BO1

### **Camau arfaethedig yn y dyfodol**

- Sicrhau bod cyngor ar gael ynghylch tylluanod gwynion a rheoli cynefin – Cyngor Sir Caerfyrddin BO3
- Parhau i hybu cofnodion gan bobl sydd wedi gweld tylluanod gwynion – Cyngor Sir Caerfyrddin BO2

### **Deddfwriaeth**


Mae tylluanod gwynion a'u safleoedd nythu yn cael eu diogelu gan y gyfraith. Mae'r dylluan wen yn cael ei diogelu'n arbennig o dan Atodlenni 1 a 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae'n anghyfreithlon lladd, niweidio neu gymryd tylluan wen wyllt neu gymryd neu ddinistrio ei hwyau. Hefyd mae'n anghyfreithlon bwrw golwg ar safleoedd nythu na hyd yn oed darfu ar dylluan wen tra bydd mewn safle magu neu yn ymyl un - oni bai bod gennych drwydded arbennig. (Fel arfer mae'r tymor magu yn ymestyn o fis Mawrth i fis Hydref, ond gallant fagu bron ar unrhyw adeg o'r flwyddyn!)

### **Dolenni defnyddiol:**

- [Ymddiriedolaeth Tylluanod Gwynion / Barn Owl Trust](#)
- [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Bird Club](#)
- [Rhaglen Monitro Tylluanod Gwynion gan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain: adroddiad terfynol 2000-2009 / BTO Barn Owl Monitoring Programme: final report 2000-2009](#)
- [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar – y dylluan wen / RSPB - the barn owl](#)

*Un feddyginiaeth gynnar ymhlith y werin yn Lloegr oedd rhoi wy tylluan i drin alcoholiaeth. Byddai'r diotwyr yn cael wyau amrwd a'r gred oedd os byddai plentyn yn cael y driniaeth hon yna byddai'n cael ei ddiogelu rhag meddwdod am oes.*

*Hefyd roedd wyau tylluanod, wedi'u coginio'n lludw, yn cael eu defnyddio i wella golwg.*



Agynhyrwyd o'r Map Ordnans gyda chaniatod Rheolwr Agrafrdy ei Mawrhydi, Hawffraint y Goron-LA 100023377.  
Reproduced from the Ordnance Survey Map with the permission of the Controller of HM Stationary Office, Crown Copyright Reserved-LA 100023377.

Additional information: % Carmarthenshire County Council  
Template: P:\SIGAPP\SYSTEM\TEMPLATE\loc\_34.mor



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin  
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

[www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk](http://www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk)

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau canlynol:  
Cyngor Sir Caerfyrddin, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Clwb Adar Sir Gaerfyrddin, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Gwarchod Glöynnod Byw, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain, Naturiaethwyr Llanelli, Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystumod, Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid